**MICK ANTONIW AS**
Member of the Senedd for Pontypridd
Aelod o'r Senedd dros Bontypridd

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru
Drwy'r Porth Ymgynghori
07 Ionawr 2025

Annwyl Gomisiynwyr

**Enw etholaeth 'Merthyr Cynon Taf'**

Diolch am y cyfle pellach i gyfrannu at ddatblygu ffiniau etholaethau newydd y Senedd.

Rwy'n falch o gefnogi argymhelliad y Comisiwn mewn perthynas â chreu etholaeth Senedd newydd o blith etholaethau presennol Pontypridd a Merthyr ac Aberdâr yn San Steffan.

Rwyf hefyd yn cefnogi'n gryf y cynnig i bob etholaeth gael ei henwi'n uniaith Gymraeg.

Fodd bynnag, rwy'n pryderu nad 'Merthyr Cynon Taf' yw'r enw mwyaf priodol ar gyfer yr etholaeth, yr wyf yn ei chynrychioli'n rhannol ar hyn o bryd. Rwy'n cynnig mai'r enw mwyaf priodol fyddai **Merthyr, Pontypridd ac Aberdâr** am y rhesymau canlynol:

- Credaf ei bod yn debygol iawn y bydd Merthyr Cynon Taf (MCT) yn cael ei ddrysu'n rheolaidd â Rhondda Cynon Taf (RhCT). Byddai o fudd nid yn unig i'r trigolion ond hefyd i ddemocratiaeth yn yr ystyr bod gwahaniaethu'n glir rhwng gwahanol rannau o lywodraeth yn hwyluso mwy o atebolrwydd o ran 'pwy sy'n gyfrifol am beth'.
- Mae'r Comisiwn wedi seilio ei enw arfaethedig ar enwau presennol yr awdurdodau lleol, a dyna pam mae 'Merthyr' wedi'i gynnwys. I bobl ardal Merthyr, mae hyn yn darparu cyswllt pendant ag enw etholaeth San Steffan a rhywfaint o barhad gydag etholaeth bresennol y Senedd. Nid yw hyn yn wir am bobl Pontypridd. Byddai cynnwys 'Pontypridd' yn hyrwyddo cysylltiad drwy ddarparu'r un parhad ac eglurder i bobl yn etholaeth bresennol Pontypridd.
- Mae Merthyr, Pontypridd ac Aberdâr mewn gwirionedd yn ddiwygiad bach i gynnig cychwynnol y Comisiwn (Merthyr Tudful, Aberdâr a Phontypridd). Rwy'n cynnig y drefn hon i osgoi treigladau.

Yn gywir,

[redacted]

Mick Antoniw AS
Aelod o'r Senedd dros Bontypridd

[redacted] Pontypridd